LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem:** 17

**Teitl:** Adroddiad rhaglen waith y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Er gwybodaeth |
| **Amseru / Timing** | Adrodd arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn er gwybodaeth. |
| **Risg / Risk** | Os na fydd y Bwrdd yn cytuno ar raglen waith ac yn ei chadw'n gyfredol, mae risg na fydd y Bwrdd yn parhau i ddatblygu.<br><br>Mae risg hefyd na fydd gweithrediad a phroses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd yn cyd-fynd ag arfer llywodraethu da.<br><br>Gallai hyn olygu nad ydym yn bodloni'r gofynion statudol gofynnol, ein Rheolau Sefydlog, a blaenoriaethau Cynllun Blynyddol Llais. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â'n blaenoriaeth 5 -tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithrediad a chyflawniad llwyddiannus ar gyfer pob agwedd ar waith Llais ac felly, cyflawni'r holl amcanion allweddol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant Llais. |

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

| | |
|---|---|
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol**: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol**: enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Alyson Thomas, Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Mae gan y Bwrdd raglen waith dreigl ar waith ers ei sefydlu, sydd wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd.<br><br>Mae'r rhaglen waith hon hefyd yn ymgorffori meysydd datblygu a chamau gweithredu fel allbynnau y cytunwyd arnynt o adolygiadau effeithiolrwydd blaenorol y Bwrdd. |
| **Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting** | Richard Bevan, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd/Karla Lee, Rheolwr Llywodraethu a Risg. |
| **Dyddiad / Date** | 24 Ebrill 2026 |

**Argymhellion/ Recommendations**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn er gwybodaeth. Bydd y Bwrdd yn nodi bod dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer 2026/2027 wedi'u nodi yn y rhaglen waith atodedig, ond nad yw manylion y rhaglenni wedi'u cynnwys.

Nid yw'r elfennau hyn wedi'u cwblhau eto, gan fod cynigion yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026/2027 sy'n effeithio ar gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol trwy gyfranogiad aelodau'r bwrdd mewn gweithgareddau ymgysylltu cymunedol ledled Cymru, yn ogystal â gweithgareddau eraill.

Cytunwyd y bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol 4 gwaith y flwyddyn yn unol â gofyniad ein Rheolau Sefydlog yn hytrach na'r 6 gwaith y flwyddyn bresennol. Bydd amserlen o 4 digwyddiad neuadd y dref, 2 ddigwyddiad bwrdd crwn a digwyddiadau cenedlaethol/lleol hefyd yn cael eu hamlinellu mewn rhaglen lawnach a bydd manylion pellach yn cael eu cadarnhau cyn gynted â phosibl.

Mae gwahoddiadau dyddiadur diwygiedig ar gyfer y 4 cyfarfod Bwrdd cyhoeddus wedi'u hanfon allan, fodd bynnag, rydym hefyd wedi cadw'r slotiau cyfarfod Bwrdd misol, i'w defnyddio ar gyfer sesiynau datblygu/briffio'r Bwrdd a chyfleoedd ymgysylltu eraill, fel y digwyddiadau neuadd y dref a'r ford gron a gynlluniwyd.

Bydd amserlen cyfarfodydd y pwyllgor yn cael ei hadolygu i wneud yn siŵr bod hyn hefyd yn cyd-fynd â rhaglen newydd cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer adrodd sicrwydd a bydd yn cadarnhau hynny yn dilyn cysylltu â Chadeirydd pob pwyllgor.

Unwaith y bydd y ffordd ymlaen wedi'i chadarnhau, bydd rhaglen cyfarfodydd y dyfodol a'u rhaglenni gwaith priodol a'r agenda bosibl yn cael eu datblygu a cheisir cymeradwyaeth.